Cadw Mamogiaid Dan Do

Os yw mamogiaid, yn enwedig rhai cyfoen, yn cael eu cadw dan do yn ystod y gaeaf, mae lleihau straen a chynnal safonau lles uchel yn bwysig.

Pryd ddylid eu rhoi dan do?

Wrth roi mamogiaid dan do, dylid ystyried y canlynol:

- Dylai'r penderfyniad ynghylch amseriad rhoi mamogiaid dan do ddibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys y tywydd a faint o borfa sydd ar gael
- Po hwyaf y mae mamogiaid yn cael eu cadw dan do, y mwyaf yw'r risg o glefydau fel cloffni, erthylu a chlefydau rhewfryn yn ymledu
- Ni ddylai mamogiaid gael eu rhoi dan do os oes llai na thair wythnos cyn wyna oherwydd mae angen iddyn nhw gyfarwyddo â'u diet dan do. Bydd hyn yn lleihau'r risg o broblemau sy'n berthynol i faeth, fel y dwymyn laeth neu glwy'r eira
- Cynlluniwch y bwydo'n ofalus, gan ddibynnu ar y porfwyd sydd ar gael a'i ansawdd.

Beth i'w wneud cyn rhoi mamogiaid dan do

Mae'n bwysig paratoi'r sied cyn dod â'r mamogiaid i mewn. Dyma rai camau i'w hystyried:

- Glanhau a diheintio'r sied a'r llociau a chreu'r llociau bach ymhell o flaen llaw.
- Darparu lle/lloc ynysu ar gyfer unrhyw famogiaid y bydd rhaid eu hynysu oherwydd erthylu, cloffni neu unrhyw afiechyd arall. Os oes sied ar wahân ar gael, dylid cadw unrhyw famogiaid sydd wedi erthylu yn honno.
- Gwneud yn siŵr fod y sied wedi ei hawyru'n dda ac yn rhydd o ddrafft.
- Efallai yr hoffech ystyried rhoi baddon traed i'r mamogiaid cyn eu rhoi dan do er mwyn atal dod â heintiadau cloffni i mewn i'r sied.

Cadw Mamogiaid Dan Do

Beth i'w ystyried wrth roi mamogiaid dan do:

- Os cawson nhw eu sganio am feichiogrwydd, dylai'r mamogiaid gael eu rhannu yn ôl nifer eu hŵyn fel bod modd rhoi'r diet cywir iddyn nhw.
- Hefyd, dylid rhannu'r mamogiaid yn ôl eu Sgôr Cyflwr Corff (BCS). Yn ogystal, mae'n werth ystyried cadw'r mamogiaid hŷn ar wahân i'r defaid blwydd ac ŵyn benyw er mwyn osgoi bwlïo.
- Dylai'r gwasarn fod yn lân a sych drwy'r amser.

Dwysedd stocio a lle i fwydo

Cynlluniwch y lle i fwydo fel a ganlyn, lle gwelwch god ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer gorweddfan i famogiaid:

Math o Ddafad	**Llawr â gwasarn gwellt (m.sg.)**
Mamogiaid llawr gwlad yn ystod beichiogrwydd (60-90kg yr un)	1.2 - 1.4
Mamogiaid llawr gwlad ag ŵyn hyd at chwe wythnos oed	2.0 – 2.2
Mamogiaid mynydd (45-65kg yr un)	1.0 – 1.2
Mamogiaid mynydd ag ŵyn hyd at chwe wythnos oed	1.8 – 2.0
Ŵyn hyd at 12 wythnos oed	0.5 – 0.6
Hyrddod	1.5 – 2.0

- Mae modd rhoi 10% yn llai o orweddfan i famogiaid sy'n cael eu cneifio yn y gaeaf nag i famogiaid heb eu cneifio.
- Dylai'r mamogiaid gael digon o le i orwedd a bwydo drwy'r amser. Yn ôl cod ymarfer Llywodraeth Cymru, dylai unrhyw famogiaid mynydd sy'n cael dwysfwyd fod ag o leiaf 30cm o le wrth fwyta a dylai mamogiaid llawr gwlad fod â 45cm. Pan fo'r mamogiaid yn cael gwair a silwair *ad lib*, dylid caniatáu 10-12cm o le bwyta i bob mamog, gan ddibynnu ar ei maint**.**
- Dylai fod yn rhwydd i bob mamog gyrraedd dŵr glân.